

# ROBERTS, JOHN JOHN ('Iolo Caernarfon'; 1840 - 1914), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, bardd a llenor

**Enw:** John John Roberts  
**Ffugenw:** Iolo Caernarfon  
**Dyddiad geni:** 1840  
**Dyddiad marw:** 1914  
**Priod:** Ann Roberts (née Williams)  
**Plentyn:** John Roberts  
**Rhiant:** John Roberts  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, bardd a llenor  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Tir-bach, Llanllyfni, yn fab i John Roberts, a ddaethai yno o Amlwch yn 1824 pan ddaeth dyddiau blin ar waith copr Mynydd Parys. Ychydig iawn o addysg a gafodd ym more ei oes, a dechreuodd weithio'n ifanc gyda'i dad yn chwarelau Nant Nantlle.

Dechreuodd bregethu yn 1867; o ysgol Clynog aeth i Goleg y Bala (1868-1872). Galwyd ef (1873) i fugeilio eglwys Trefriw, ac ordeiniwyd ef yn 1874; yn yr un flwyddyn priododd ag Ann Williams (1846 - 1910), merch y Castellgoed yn Eifionydd. Symudodd yn 1879 i eglwys y Tabernacl, Porthmadog, a bu yno hyd ei ymddeoliad yn 1909. Bu farw 5 Tachwedd 1914, yn 74 oed.

Bu'n llywydd y gymanfa gyffredinol yn 1900, yn llywydd cymdeithasfa'r gogledd yn 1906, ac yn ddarlithydd Davies yn 1907, a chymerth ran helaeth ym mudiadau trefniadol ei gyfundeb, ond fel pregethwr ac areithiwr yr oedd ar ei orau.

Cyfansoddodd lawer o farddoniaeth; enillodd y goron ddwywaith (1890, 1892) yn yr eisteddfod genedlaethol, heblaw cryn nifer o wobrau am arwrgerddi a chyfansoddiadau barddonol eraill, a bu'n feirniad ar bryddestau'r goron droeon. Rhifid ef ymhlith y 'beirdd newydd,' ac y mae ei waith yn nodweddiadol o'r ysgol honno - efallai'n dangos mwy o grebwyll a meddylgarwch nag o awen.

Cyhoeddodd saith o lyfrau: *Oriau yng Ngwlad Hud a Lledrith*, 1891; *Ymsonau*, 1895; *Myfyrion*, 1901; *Breuddwydion y Dydd*, 1904; *Cofiannau Cyfiawnion*, 1906; *Crefydd a Chymeriad*, 1910 (ei ddarlith Davies); a *Cofiant Dr. Owen Thomas*, 1912.

## Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

Nodiadau gan ei fab, y Parch. Dr. John Roberts, Caerdydd

T. R. Jones, *Y Parchedig J.J. Roberts (Iolo Caernarfon)* (Caernarfon 1915?)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q28361402](https://www.wikidata.org/wiki/Q28361402)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.